YSGOL BRYNREFAIL

PLYGU ECO'R WYDDFA

Ar y prynhawn dydd Iau, cyn ddaeth yr eira trwchus fin nos, tro Ysgol Brynrefail oedd hi i blygu Eco'r Wyddfa er ei ddosbarthu cyn y Nadolig. Daeth criw o ddisgyblion a staff ynghyd am y prynhawn cyfan, yn cael eu cynnal gan ambell o focs o siocled, i fyseddu'r papurach di-ri i'w le priodol er creu ein papur bro.

Fe gafodd y pennaeth, Mr Eifion Jones, gip olwg cynnar ar y tudalennau cyn ymadael mewn tymer drwg am fod llun Geraint Morris yn y papur a dim sôn am y pennaeth o gwbl ! Daeth Mr Dilwyn Roberts , dirprwy bennaeth i fwyta siocled ond plygiodd o'r un dudalen ond chwarae teg i'r ddirprwyes Ms Eirwen Williams, bu hi yn gweithio'n ddyfal trwy'r cyfnod.

A Daniel bach ! Plygu ti fod i wneud nid darllen !